

COFNODION PWYLLGOR EIDDO IONAWR 26 2021

Ymddiheuriadau :- Cyng. Simon Brooks

Presennol : Cynghorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Ian Jones, Nia Jeffreys, Aled Griffith, Jason Humphreys (Cyng. Richard Williams fel sylwebydd)
Marian Roberts (Clerc)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Gwilym Jones.

1. Llwybrau

Nodwyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu hadrodd i'r Clerc – ar wahân i'r ffaith fod y llwybrau i gyd yn fwdlyd oherwydd y glaw diweddar.

Penderfynwyd : hysbysebu yn yr Wylan am tendr i dorri gwair y llwybrau yn hytrach na defnyddio gwasanaeth Cyngor Gwynedd yn ôl cynnig Cyng. Jason Humphreys , Cyng. Selwyn Griffiths yn eilio.

2. Cae Bodawen

Nodwyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu hadrodd i'r Clerc – ar wahân i'r ffaith fod yno byllau dŵr oherwydd y glaw diweddar. Eglurodd y Cadeirydd fod y broses o gofrestru'r tir wedi ei gychwyn yn Hydref 2017 ond am wahanol resymau ni chafodd y broses ei chwblhau. Mae gweithredoedd y tir ym meddiant y cyfreithwyr Breese Gwyndaf ac mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi cysylltu â hwynt i barhau i gwblhau'r broses o gofrestru'r tir. Eglurwyd fod ebost wedi ei dderbyn oddiwrth Un Llais Cymru yn hysbysu'r Cyngor fod angen llenwi holiadur ynglyn â thiroedd Cyngorau erbyn 26 Chwefror 2021 oherwydd bod Cofrestrfa Tir EM yn gyfrifol am gofrestru holl dir cyrff sector cyhoeddus erbyn 2025.

Penderfynwyd : Symud ymlaen i gael 'valuation' o holl diroedd Cyngor Tref Porthmadog er mwyn symud ymlaen i'w cofrestru'n swyddogol yn ôl cynnig Cyng. Selwyn Griffiths, Cyng. Ian Jones yn eilio.

3. Bryn Coffa

Dim sylw (Mae'r plethdorchau wedi cael eu clirio ers dechrau Ionawr).

4. Cae Pawb

Nodwyd ei bod yn fwriad gan bwyllgor Cae Pawb i godi giât y fynediad yn uwch i rwystro mynediad gan drespaswyr.

Penderfynwyd : derbyn y wybodaeth.

5. Llochesi Bws

Dim sylw i'w adrodd.

6. Cerflun Mr. Maddocks

Dim sylw i'w adrodd.

Marian Roberts
29.1.2021